Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

29 Mawrth 2019

Annwyl Mr Slade

Caffael Cyhoeddus yng Nghymru

Diolch i chi am ddod i sesiwn y Pwyllgor ar y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) ar 18 Chwefror 2019 ac am eich gohebiaeth ddilynol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod swm y gwariant drwy gontractau a reolir gan yr NPS wedi parhau i gynyddu, gan gynhyrchu incwm ychwanegol i leihau'r ddibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw model presennol yr NPS wedi ennill tir i'r graddau a ddisgwyliwyd.

Mae'r Pwyllgor yn nodi o'ch gohebiaeth fod y costau a fuddsoddwyd mewn datblygu a rhedeg yr NPS yn annhebygol o gael eu gwaredu'n llwyr drwy symud i fodel newydd. Nodwn hefyd fod yr NPS wedi cyfeirio at fuddion i'r sector cyhoeddus ehangach o'i waith, a'i fod wedi ymgymryd â gweithgarwch caffael a fyddai, yn ôl pob golwg, wedi arwain fel arall at gostau gweinyddol ychwanegol i rannau eraill o'r sector cyhoeddus.

Fe wnaethoch gydnabod yn eich tystiolaeth fod gwersi i'w dysgu o'r profiad hyd yma gyda'r NPS wrth i chi symud ymlaen gyda chaffael cyhoeddus. Credwn hefyd fod gwersi ehangach i Lywodraeth Cymru eu dysgu a fydd yn berthnasol i feysydd eraill o ddatblygu a gweithredu polisïau yn y dyfodol a rôl gyffredinol Llywodraeth Cymru o ran arwain systemau wrth weithio gyda chyrff cyhoeddus eraill. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i gasglu a rhannu'r gwersi hynny ar draws y sefydliad i geisio osgoi problemau tebyg yn y dyfodol.

Nid ydym yn glir faint o ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi gyda'ch sefydliadau partner ynglŷn â'r model cyflawni gorau posibl ar gyfer contractio sector cyhoeddus canolog yn y dyfodol, gan gadw swyddogaeth genedlaethol weddilliol a dibynnu ar raddfa a

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

lleoliad posibl hyn, rydym yn credu bod gwerth mewn ystyried manteision ac anfanteision adeiladu ar swyddogaeth gaffael bresennol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Byddem yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am y model cyflenwi newydd pan fydd wedi'i bennu, a phan fydd y cynlluniau gweithredu wedi'u cadarnhau, gan gynnwys asesiad Llywodraeth Cymru o unrhyw gostau trosiannol.

Mae'r Pwyllgor yn parhau'n bryderus am gyflymder y gwaith yn y maes hwn ac ar yr un pryd parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol. Roedd ehangder posibl y materion yr oedd angen eu hystyried yn adolygiad yr NPS / Gwerth Cymru, a hynny mewn cyfnod heriol ar ôl dechrau araf, yn glir yn ein sesiynau tystiolaeth yn 2018. Roedd yn amlwg i ni fod llawer iawn o fanylion i fynd i'r afael â hwy o hyd, a bod angen gwneud llawer o waith gweithredu i wireddu'r uchelgeisiau.

Credwn yn gryf fod achos cadarn dros wneud datblygu caffael cyhoeddus yn flaenoriaeth glir i Gymru o ran gwerth am arian. Yn naturiol, mae llawer o bwysau ar gapasiti ar hyn o bryd ac fel cyflogwr mae gennych nifer o rwymedigaethau o ran Llywodraeth Cymru wrth reoli unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar staff sy'n ymwneud â gwahanol swyddogaethau sy'n gysylltiedig â chaffael canolog. Bydd hyn yn galluogi Cymru i fanteisio i'r eithaf ar y £6 biliwn o wariant ym maes caffael cyhoeddus, a gallai helpu i wrthbwyso rhai o effeithiau economaidd posibl Brexit. Rydym yn cydnabod hynny.

Rydym yn deall bod angen ymgynghori ar strategaeth gaffael newydd, ond rydym yn pryderu y gall y sector cyhoeddus, ar ôl cyfnod hir o adolygu, fod mewn perygl o golli cyfleoedd i wneud cynnydd mewn meysydd penodol tra bod yr ymgynghoriad yn mynd rhagddo. Mae e-gaffael yn faes, er enghraifft, lle mae'n amlwg y bydd angen gwneud rhai penderfyniadau prydlon pan ddaw'r cytundebau contractiol presennol i ben, a chytuno sut y caiff trefniadau eu hariannu.

Rydym hefyd yn parhau i fod yn bryderus am yr hyn sy'n ymddangos yn broblem o ran bwrw ymlaen â gwaith i gefnogi datblygiad y proffesiwn caffael yng Nghymru. Er bod yr her o ddatblygu gallu caffael y sector cyhoeddus yn mynd y tu hwnt i weithwyr caffael proffesiynol, mae sawl blwyddyn wedi mynd heibio bellach ers diwedd y rhaglen Doniau Cymru ac mae'n peri pryder nad oes set glir o flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Byddai'r pwyllgor yn croesawu eglurhad ar gynlluniau ar gyfer y rhaglen waith caffael. Byddai'n ddefnyddiol gweld llinell amser gliriach gyda cherrig milltir allweddol, yn ychwanegol at y penderfyniad penodol am y model contractio canolog newydd a'r ymgynghoriad ar strategaeth caffael cyhoeddus newydd. Hoffem weld hyn yn ymdrin

ag unrhyw ddatblygiadau perthnasol sy'n benodol i gaffael – gan nodi'r meysydd pryder yr ydym wedi'u harchwilio o'r blaen – yn ogystal â'r gydberthynas ag unrhyw gerrig milltir allweddol ar gyfer rhywfaint o'r gweithgaredd ehangach a ddisgrifiwyd gennych, er enghraifft ar yr agenda Gwaith Teg.

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, soniwyd am faterion yn ymwneud â safbwynt Llywodraeth Cymru ar wneud y sector cyhoeddus yn agored i risgiau'n ymwneud ag iechyd ariannol cyflenwyr allweddol fel Interserve. Ers y sesiwn dystiolaeth, mae'r cwmni adeiladu o Abertawe, Dawnus, hefyd wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, a chyfeiriwyd yn y cyfryngau at sawl contract byw yn y sector cyhoeddus yng Nghymru (a thu hwnt).

Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU yn achos Interserve ac, fel y bo'n briodol, Dawnus, ac am y camau yr eglurodd Jonathan Hopkins eu bod yn cael eu datblygu i gynyddu gallu Llywodraeth Cymru i asesu risgiau perthnasol mewn perthynas ag iechyd ariannol cyflenwyr ar ran y sector cyhoeddus ehangach. Yn achos Dawnus, rydym yn nodi y darparodd Llywodraeth Cymru fenthyciad o £3.5 miliwn i Dawnus a bod dyled £1.5 miliwn iddi o hyd. Hoffem wybod mwy am ddiben cytundeb y benthyciad a'r mesurau diogelu a roddwyd ar waith i ddiogelu pwrs y wlad, yn ogystal ag unrhyw gymorth ehangach a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn y ddau achos hyn byddem yn gofyn am ddadansoddiad llawn o ba mor agored i risgiau yw'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar ôl ei gadarnhau. Rydym yn debygol o ddychwelyd i enghraifft Dawnus fel rhan o'n gwaith wrth drafod cyllid busnes Llywodraeth Cymru.

Yn olaf, rwyf i, fel Cadeirydd, wedi derbyn gohebiaeth yn mynegi pryderon am gydymffurfiaeth â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, yn benodol adran 18 ar 'egwyddorion caffael'. Mae'r pryder yn ymwneud â Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu polisi o ddefnyddio'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) ar bob contract adeiladu cyhoeddus, sy'n gofyn am gymhwyster gofynnol penodol ar gyfer crefftwyr. Rwyf hefyd yn deall bod tystiolaeth y gallai fod yn bosibl nad yw cwmnïau adeiladu bach i ganolig eu maint wedi cael yr un elw ar ardollau Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu â chwmnïau adeiladu mawr.

Rwy'n cydnabod y gall fod rhesymau da dros fynnu lefel ofynnol o ardystiad i roi rhywfaint o sicrwydd ynghylch ansawdd y crefftwaith. Fodd bynnag, yr honiad yw bod Llywodraeth Cymru, drwy orfodi'r defnydd o'r CSCS, wedi lleihau cystadleuaeth yn artiffisial ar gontractau cyhoeddus os yw cwmnïau llai hefyd yn derbyn llai o arian i gynorthwyo'u gweithwyr i hyfforddi er mwyn cael ardystiad CSCS. Er nad mater i'r Pwyllgor yw penderfynu ar gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â deddfwriaeth,

byddwn yn croesawu eich ymateb ar y mater hwn, gan ei fod yn berthnasol i'r materion sy'n ymwneud â galluogi mynediad i gontractau ar gyfer cyflenwyr lleol a chyflenwyr llai o faint.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb. Os hoffech esboniad am unrhyw fater mae croeso i chi gysylltu â'r tîm clercio.

Yn gywir,

Nick Ramsay AC
Cadeirydd